

2014 Rhif 9 (Cy.9)

**DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL (CYMRU)
2006**

Cyfarwyddiadau Pwyllgor
Gwasanaethau Iechyd Arbenigol
Cymru (Cymru) (Diwygio) 2014

Gwnaed

Yn dod i rym

1 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 12(1)(b) a (3), 13(2)(c), 3(c) a 4(c) a 203(9) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2014.

(3) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddiadau hyn, ystyr “y prif Gyfarwyddiadau” (“*the principal Directions*”) yw Cyfarwyddiadau Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (Cymru) 2009(2).

Diwygio'r prif Gyfarwyddiadau

3. Yn Atodiad 1 o'r prif Gyfarwyddiadau, mae'r geiriau "Emergency Ambulance Services" ac "Emergency transport services for the sick and injured" wedi eu dileu.

Llofnodwyd gan Kevin Flynn, Cyfarwyddwr Cyflenwi/Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.



Dyddiad: 10/03/14